

## CABINET

Cofnodion Cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd drwy fideo gynhadledd ddydd Mawrth 27 Gorffennaf am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Meirick Davies, Melvyn Mile a Graham Timms

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Cyllid ac Eiddo (SG), a Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad (EJ); Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd (MJ) a Gweinyddwyr y Pwyllgor (KEJ & SLW [Gweddarlledwr])

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyngorydd Melvyn Mile gysylltiad personol gydag eitem 5 ar y rhaglen – Cynllun Gwella Heol Y Castell Llangollen 2020 gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Llangollen.

#### 3 MATERION BRYD

Ailddatblygiad Arfaethedig cyn Safle Llyfrgell Prestatyn - cymeradwyaeth i ddechrau'r broses dendro

Byddai'r mater hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r Adroddiad Cyllid (eitem rhif 6 ar yr agenda).

#### 4 COFNODION

Cafodd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2021 eu cyflwyno.

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2021 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

## 5 PROSIECT GWELLA HEOL Y CASTELL, LLANGOLLEN, 2020

Cyflwynodd y Cyngorydd Brian Jones yr adroddiad gan geisio cymeradwyaeth y Cyngor i symud ymlaen a rhoi Prosiect Gwella Heol y Castell Llangollen 2020 ar waith. O ystyried yr amcangyfrif o gost y prosiect sef £1.75 miliwn a'r diddordeb cymunedol sylweddol yn y cynllun ceisiwyd penderfyniad gan y Cabinet er mwyn cymeradwyo ei roi ar waith.

Dywedodd y Cyngorydd Jones ei fod wedi cerdded llwybr y cynllun gyda swyddogion a thrigolion ac roedd yn falch o nodi'r ymateb cadarnhaol i'r gwelliannau arfaethedig a'r buddsoddiad sylweddol yn yr ardal. Roedd yr ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd cynhwysfawr a'r ymateb i adborth yn nodi yn glir y gwrandawyd ar drigolion a busnesau a bod y Cyngor wedi gweithio gyda nhw i fynd i'r afael â phroblemau a phryderon, oedd wedi golygu newidiadau i'r cynllun, a byddai modd gwneud addasiadau pellach fel bo'n briodol. Wrth ganmol y prosiect dywedodd y Cyngorydd Jones fod Aelod Senedd Cymru ac Aelod Senedd y DU hefyd yn cefnogi'r prosiect ac anogodd y Cabinet i gymeradwyo rhoi'r cynllun ar waith.

Cyflwynodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ar Y Ffyrdd (TPRSM) gyflwyniad ar fanylion y cynllun, oedd yn fras, yn cynnwys cyfeiriad at y canlynol -

- gwaith Grŵp Llangollen 2020 yn cychwyn prosiect i ystyried traffig, parcio, diogelwch cerddwyr a materion parth cyhoeddus yng nghanol y dref
- sicrhawyd cyllid gan Cadwyn Clwyd a Chyngor Tref Llangollen i gynnal astudiaeth ddichonoldeb yn ceisio barn pobl drwy amrywiaeth o ymarferion ymgysylltu a llwyfannau cyfryngau a nododd nifer o bryderon.
- amlygwyd pryderon presennol gan gynnwys traffig a thagfeydd yn ymwneud â pharcio, palmentydd yn rhy gul, anawsterau i gerddwyr wrth groesi Heol y Castell a chyflwr gwael y parth cyhoeddus.
- roedd cynigion dylunio manwl wedi eu datblygu yn seiliedig ar ganfyddiadau'r astudiaeth ddichonoldeb er mwyn creu amgylchedd oedd yn fwy cyfeillgar i gerddwyr, gyda llai o barcio ar y stryd ac yn darparu mannau llwytho i fusnesau, roedd argraffiadau arlunydd hefyd wedi eu darparu i ddangos sut fyddai'r newidiadau arfaethedig yn edrych
- £1.75 miliwn yw'r amcangyfrif o gyfanswm cost y prosiect, sy'n cynnwys cyfraniad o £780,000 gan y Cyngor a chyllid grant Llywodraeth Cymru o £970,000
- roedd ymarfer ymgysylltu cynhwysfawr â'r cyhoedd wedi ei gynnal ar y cynigion dylunio, a darparwyd trosolwg o farn pobl am y prosiect – yn gyffredinol roedd 64% o'r farn fod y cynllun yn syniad da a 36% o'r farn nad oedd yn syniad da yn gyffredinol
- roedd adborth o'r gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd wedi golygu rhai newidiadau arfaethedig i'r dyluniad er mwyn gwneud gwelliannau pellach ac i liniaru pryderon a fynegwyd.  
Ehangwyd ar y prif faterion a godwyd gydag eglurhad o'r newidiadau arfaethedig o ganlyniad i hynny, a rhesymau pam na wnaed newidiadau arfaethedig o ganlyniad i broblemau eraill
- Roedd y prosiect yng Ngham 1 a dylai'r Cabinet gymeradwyo ei roi ar waith gan fod camau pwysig eraill angenrheidiol nawr i ddilyn fel rheoli parcio o amgylch y

dref, llwybrau teithio llesol, arwyddion a chyflwyno cyfyngiad pwysau amgylcheddol

- Amlygwyd y camau nesaf, pe bai Cabinet yn cymeradwyo'r cynllun, gyda'r gwaith adeiladu i gychwyn ym mis Medi 2021 er mwyn ei gwblhau yn mis Mawrth 2022.

Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad at y gwaith ymgysylltu cynhwysfawr a'r broses ymgynghori fel un arbennig o werthfawr gydag ymgysylltiad sylweddol gan y gymuned, aelodau lleol, cyngor y dref a busnesau, a bod newidiadau sylweddol wedi eu gwneud i'r cynigion dylunio o ganlyniad i'r broses honno.

Gwahoddodd yr Arweinydd y ddau aelod lleol i siarad am y prosiect.

Amlygodd y Cynghorydd Melvyn Mile ganlyniad y broses ymgynghori gydag oddeutu dwy ran o dair o bobl yn gyffredinol o blaid y cynllun, a diwygiadau wedi eu gwneud mewn ymateb i adborth. Roedd yn llwyr gefnogol o'r cynllun, fel roedd Cyngor Tref Llangollen y mae hefyd yn aelod ohono, ac a oedd wedi cyfrannu'n ariannol at yr astudiaeth gwmpasu gychwynol. Roedd y Cynghorydd Mile yn frwdfrydig ynglŷn â'r buddsoddiad sylweddol yn y dref i sicrhau gwelliannau a diolchodd i swyddogion am eu holl waith caled yn hynny o beth ac am ganfod datrysiadau a dulliau o gyfaddawdu o safbwynt y pryderon a fynegwyd. Anogodd y Cabinet i gymeradwyo gweithredu'r cynllun yn ddi-oed.

Rhoddodd y Cynghorydd Graham Timms (oedd hefyd yn cadeirio Grŵp Llangollen 2020) beth o gefndir sefydlu'r Grŵp, oedd yn fenter leol er mwyn i'r afael â'r problemau a nodwyd yn y dref er mwyn sicrhau ei fod yn addas at ofynion cyfoes. Bu pwyslais ar annog pawb i gymryd rhan i chwilio am ddatrysiadau, a chytuno ar ffordd o symud ymlaen. Roedd yr ymgynghoriadau wedi nodi meysydd lle roedd pobl yn cytuno arnynt yn fras, oedd wedi eu cynnwys yn y cynllun terfynol, tra'n cydnabod hefyd fod anghenion sy'n gwrthdaro gan grwpiau penodol, a'r Cyngor yn gorfod ymateb i bryderon yr holl bobl oedd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriadau. Byddai cymeradwyo'r cynllun yn golygu'r buddsoddiad mwyaf yn Llangollen ers cenedlaethau ac yn arddangos sut gall cynllun cymunedol gweithredol, wedi'i ariannu gan grantiau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, helpu i ddatrys problemau a chreu gwell lle i fyw a gweithio. Roedd yr adroddiad yn cydnabod na fyddai'r holl broblemau yn cael eu datrys yn llwyr gan y cynllun a bod angen parhau i weithio gyda'r gymuned i ganfod datrysiadau parcio fel y flaenoriaeth nesaf. Wrth annog y Cabinet i gymeradwyo'r cynllun, diolchodd y Cynghorydd Timms i swyddogion am eu gwaith, i'r Cynghorydd Brian Jones (Aelod Arweiniol) ac i Grŵp Llangollen 2020 gan sôn yn benodol am Robyn Lovelock oedd wedi bod yn allweddol wrth yrru'r prosiect yn ei flaen.

Ystyriodd y Cabinet fuddion y cynllun ac roedd cefnogaeth unfrydol ar gyfer y buddsoddiad sylweddol yn Llangollen er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dref. Roedd y Cabinet hefyd yn falch o nodi'r broses ymgynghori eang a chynhwysfawr, a'r lefel o ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriadau. Derbyniwyd nad oedd pawb o blaid y cynllun ond nodwyd fod ymateb wedi ei ddarparu i bob problem / pryder a fynegwyd, a gwnaed newidiadau i'r cynllun o ganlyniad iddynt, a rhoddwyd eglurhad lle na ellid gwneud newidiadau.

Canolbwyntiwyd ar y prif faterion trafod a ganlyn -

- Gofynnodd y Cynghorydd Tony Thomas a allai'r man llwytho newydd ar Heol y Castell y tu allan i neuadd y dref fod yn adeiladwaith pantiog a chynnig parcio drwy'r dydd am 30 munud am ddim i fusnesau a thrigolion.  
Rhannodd y TPRSM ddelwedd o'r lleoliad ac eglurodd y cais gwreiddiol i gulhau'r ffordd a lledu'r palmant a'r newidiadau arfaethedig yn dilyn adborth i gadw'r man llwytho yn erbyn llinell gyfredol y cwrw. Mae'n bosib y gellid gosod y man llwytho yn fwy pantiog ond byddai angen gwneud ymchwiliadau technegol pellach o ran gwasanaethau tan ddaearol, lleoliad y goeden a'i gwreiddiau, materion perchnogaeth tir ac unrhyw effaith ar fusnesau manwerthu. Roedd manteision ac anfanteision hefyd i osod cyfyngiad parcio 30 munud, a byddai angen ystyried hynny ymhellach. Roedd y Cynghorydd Brian Jones yn gefnogol o'r awgrym a nododd y Cabinet hefyd eu cefnogaeth, cyn belled na fyddai unrhyw waith yn golygu y byddai angen gwaredu'r goeden. Cytunodd y TPRSM i wneud yr ymchwiliadau angenrheidiol i fanteision yr awgrym a'i ystyried ymhellach gyda'r aelod arweiniol ac aelodau lleol fel rhan o'r cynllun.
- Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley yn falch o nodi'r buddsoddiad sylweddol i wella Llangollen ac yn gyffredinol roedd yn croesawu'r cynllun gyda'r newidiadau arfaethedig.  
Cyfeiriodd at negeseuon e-bost a dderbyniwyd gan bobl yn amlygu nifer o broblemau a phryderon, a nododd bod y rhan fwyaf o'r rheiny wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ac yn ystod y cyfarfod, gan gynnwys y man llwytho yn Heol y Castell (a godwyd gan y Cynghorydd Thomas) a gwarchod y goeden, ailystyried yr opsiynau ar gyfer Short Street, ac ystyried cyflwyno cyfyngiad pwysau a darpariaeth parcio yng nghanam nesaf y prosiect. Cyfeiriodd at welliannau mynediad a wnaed yn gysylltiedig â'r ganolfan iechyd ychydig flynyddoedd yn ôl a'r potensial am ddarpariaeth parcio yn yr ardal honno y gellid ei ystyried yng nghanam 2
- Talodd y Cynghorydd Mark Young deyrnged i'r gwaith caled roedd pobl wedi ei wneud i symud y cynllun yn ei flaen ac roedd yn falch o nodi'r ymrwymiad o ymateb i bob problem / pryder a fynegwyd a'r gwaith pellach i'w wneud yn ystod cam 2. Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Young cadarnhaodd y TPRSM ddyddiad cychwyn ar gyfer y cynllun ym mis Medi petai'n cael ei gymeradwyo, ac o safbwynt ymyrryd cyn lleied â phosib ar fusnesau yn enwedig dros gyfnod masnachu'r Nadolig, dywedodd y byddai cydweithrediad agos rhwng y contractwr llwyddiannus a busnesau yn allweddol ac y byddai'n nodi yn y ddogfennaeth dendro y byddai angen i'r contractwr llwyddiannus ddarparu Swyddog Cyswllt Busnes er mwyn lliniaru'r effaith ar fanwerthwyr. Byddai cynnydd yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau cyn lleied â phosib o ymyrraeth, ac er mwyn cadw at amser er mwyn bodloni amodau'r grant er mwyn cwblhau'r prosiect erbyn mis Mawrth 2022.
- Nododd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill fod y cynllun wedi bod yn cael ei ddatblygu ers cryn dipyn o amser ac roedd o'r farn y byddai'n mynd i'r afael â'r problemau hir-dymor yn Llangollen a fod ganddo gefnogaeth aelodau lleol a chynghor y dref.  
Roedd y ffaith nad oedd pawb yn gefnogol o gynllun o'r math hwn i'w ddisgwyl ond roedd y cyflwyniad a dogfennaeth yr adroddiad wedi dangos fod y Cynghor

wedi bod yn barod i addasu'r cynigion lle bo'n bosib mewn ymateb i bryderon ac roedd yn cefnogi gweithrediad y cynllun.

- Roedd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts o'r farn mai'r aelodau lleol oedd yn y lle gorau i ymateb i fanylion y cynllun.

Yn seiliedig ar brofiad blaenorol, amlygodd faterion yn ymwneud â manau llwytho, effaith weledol a chyfrifiadau theoretig ar gyfer symudiadau traffig nad oeddynt wedi eu harfer yn ymarferol (fel manau troi a symud cerbydau mawr e.e. HGVs) a ddylai gael eu profi'n ymarferol o flaen llaw. Roedd yr Aelod Arweiniol a TPRSM yn derbyn y gellid dysgu gwersi o brofiadau blaenorol. O ystyried y mewnbwn a faint o graffu oedd wedi ei wneud ar y cynigion yn yr achos hwn, roedd yn annhebygol iawn y byddai unrhyw ddiffygion mawr yn cael eu nodi yn hwyrach. Roedd Swyddog Cadwraeth y Cyngor wedi bod yn rhan o'r broses o gam cynnar o'r gwaith dylunio ac roedd y gwaith gweledol 3D wedi dangos yn llwyddiannus sut byddai'r cynllun yn edrych pe bai'n cael ei weithredu.

Lleisiodd y Cynghorydd Meirick Davies ei gefnogaeth i'r cynllun. Gofynnodd a ddylai'r cyfeiriad at Lywodraeth Cymru yn yr adroddiad Cymraeg gael ei newid i Senedd. Cytunodd yr Arweinydd i ymchwilio i newid y cyfeiriad hwnnw ble bo'n briodol.

Diolchodd yr Arweinydd i'r aelodau lleol am eu gweledigaeth ac arweinyddiaeth yn y cynllun hwn ac am waith yr aelod arweiniol a'r swyddogion yn hynny o beth. Derbyniwyd y byddai ymateb lle roedd newidiadau wedi eu hawgrymu, na fyddent yn gadarnhaol bob amser, ond gallai'r Cabinet fod yn sicr fod swyddogion wedi ymateb i bob pwynt a godwyd ac wedi darparu eglurhad am y pryderon nad oedd modd gweithredu arnynt. Gallai'r Cabinet gael sicrwydd hefyd o'r ymgysylltu dwys a'r broses ymgynghori a gyflawnwyd er mwyn llywio'r broses gwneud penderfyniadau. Croesawodd yr Arweinydd y buddsoddiad sylweddol yn Llangollen a'r manteision fyddai'n dod o'r cynllun, ac roedd yn llwyr gefnogol ohono.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r Cabinet yn –

- (a) *Cymeradwyo gweithredu Prosiect Gwella Heol Y Castell Llangollen 2020, gan gynnwys y diwygiadau a restrir yn Atodiad A yr adroddiad oedd yn deillio o adborth ymgysylltu cyhoeddus ac a gytunwyd gyda'r aelodau lleol, a*
- (b) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad Effaith ar Les (Atodiad C yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## **6 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb fel yr amlinellir isod -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2021/22 oedd £216.18 miliwn (£208.302 miliwn yn 2020/21).
- rhagwelir y byddai gorwariant o £0.708 miliwn mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol.

- manylodd am arbedion ac arbedion effeithlonrwydd gwerth £4.448 miliwn o ran ffioedd ac arwystlon, arbedion gweithredol, newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth ac ysgolion
- tynnwyd sylw at y risgiau a thybiaethau presennol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, cyllidebau corfforaethol ac ysgolion ynghyd ag effaith ariannol coronafeirws a'r sefyllfa o ran ceisiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.
- rhoddwyd y wybodaeth gyffredinol ddiweddaraf ynghylch Y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai, Rheoli Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf gyda diweddariad ar brosiectau mawr.

Ceisiwyd cymeradwyaeth y Cabinet hefyd am fater brys nad oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad ac argymhelliad pellach yn ymwneud â chychwyn proses dendro o safbwynt cyn safle Llyfrgell Prestatyn. Eglurwyd pam fod y mater yn un brys o ystyried yr amserlenni ar gyfer tendro am y cynllun arfaethedig gyda dyfarniad contract ffurfiol i'w ddwyn o flaen y Cabinet er mwyn ei ystyried ym mis Medi. Roedd y Grŵp Buddsoddi Strategol wedi cymeradwyo'r cais oedd yn cynnwys dymchwel yr adeilad cyfredol ar y safle ac adeiladu pedwar ar ddeg o randai un ystafell wely ar gyfer rhent cymdeithasol a dwy uned fasnachol ar y llawr gwaelod. Roedd y cynllun cyffredinol yn werth £4.3 miliwn ac wedi ei ariannu gan y Cyfrif Refeniw Tai (£2.9 miliwn) a grant tai cymdeithasol Llywodraeth Cymru (£1.4 miliwn).

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid ddiweddariad pellach ar hawliadau'n gysylltiedig â Covid i Lywodraeth Cymru gan gadarnhau fod hawliad colli incwm Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin) wedi ei gyflwyno, oedd yn £2 miliwn, ond disgwyliwyd y byddai hawliadau o fis Gorffennaf ymlaen yn llawer is o ystyried fod y sector hamdden ac ati yn ail agor.

Wedi ystyried yr adroddiad, yr eitem frys a'r argymhelliad ychwanegol -

**PENDERFYNWYD** y byddai'r Cabinet yn –

- nodir cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2021/22 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, ac yn*
- Cymeradwyo dechrau'r broses dendro o safbwynt aildatblygiad arfaethedig hen Lyfrgell Prestatyn ac adeiladu pedwar ar ddeg o randai ar gyfer rhent cymdeithasol a dwy uned fasnachol ar y llawr gwaelod.*

## **7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau canlynol -

- Cynlluniau Byw yn y Gymuned Anabledau Dysgu Sir Ddinbych – Medi
- Cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd Prestatyn – Rhagfyr
- Cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd Canol Y Rhyl – Ionawr

**PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05 am.